# 8. BARA A GWIN

**Darllen:** Marc 14: 22-26

Ar ôl iddo olchi eu traed fel bod ganddynt ran ynddo, a dweud y byddai'n cael ei fradychu, ei wadu, a'i adael ganddynt, esboniodd lawer iddynt ond ni ddaeth ei neges yn glir iddynt tan ar ôl y croeshoelio a'r atgyfodiad. Gweddïodd drostynt hwy a phawb a oedd i ddod ar eu holau, ei weddi fawr, archoffeiriadol (Ioan 17).

Gosodwyd y golchi traed yng nghyswllt y ffaith i Iesu wybod '*ei fod wedi dod oddi wrth Dduw a'i fod yn mynd at Dduw*' (Ioan 13: 3). Dyma gefndir a chyd-destun holl ddigwyddiadau'r Oruwch-Ystafell. Yna, yn y cyswllt hwn, cymerodd Iesu ddarn o fara'r Pasg gan adrodd y weddi Iddewig, draddodiadol: '*Bendigedig wyt ti, Arglwydd ein Duw, Brenin y bydysawd, yr wyt yn dod â bara o'r ddaear er mwyn i ni fwyta ohono. Gorchymynnaist i ni fwyta'r bara hwn.*' Fe'i torrodd a'i roi iddynt gan ddweud, '*Cymerwch; hwn yw fy nghorff.*' Rhoddodd y bara i ddynion a oedd â bywydau toredig. Rhoddodd y bara i gwmni ei ddilynwyr a oedd wedi ei dorri gan raniadau, a oedd yn rhan o fyd rhanedig, wedi ei gaethiwo gan bechod. Rhoddodd iddynt fara'r Pasg, symbol ac arwydd o waredigaeth Duw ac o'u hunaniaeth newydd fel plant Duw. Rhaid i dorth fara gael ei thorri, dyna bwrpas ei chreu. Rhaid i gorff Iesu gael ei dorri ar y groes canys dyna bwrpas ymgnawdoli gras Duw i'r byd. (Gras – cariad at rai nad ydynt yn ei haeddu, nad oes ganddynt hawl arno). Trwy ei dorri y daw undod i ddyn, i'r Eglwys, i ddynolryw ac i'r greadigaeth.

Ar ddiwedd y wledd cymerodd y pumed cwpan o win, cwpan Elias (y traddodiad oedd bod yn rhaid i Elias ddod o flaen y Meseia) gan adrodd y weddi draddodiadol: '*Bendigedig wyt ti, Dragwyddol Un, ein Duw, Brenin y bydysawd, Creawdwr ffrwyth y winwydden*.' Wrth iddo roi'r cwpan iddynt i fynd o law i law ac o wefus i wefus, dywedodd, '*Hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod, sy'n cael ei dywallt dros lawer.*' '*Y cyfamod newydd yn fy ngwaed',* sydd yn y Llythyr Cyntaf at y Corinthiaid, hynny yw, y berthynas newydd â Duw. Dyma'r Exodus Newydd o gaethiwed i ryddid, o anwiredd i wirionedd, o dywyllwch i oleuni, o farwolaeth i fywyd. Symbol yw'r bara o undod a bywyd; symbol yw'r cwpan gwin o fywyd a llawenydd.

Yn yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid 11: 26, cawn her, gorchymyn ac addewid Swper yr Arglwydd: ‘*Oherwydd bob tro y byddwch yn bwyta’r bara hwn ac yn yfed y cwpan hwn, yr ydych yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd, hyd nes y daw.*’ Llefara’r bara am waredigaeth, iachâd, cymod, undod, cyflawniad; tra bod y gwin yn cyhoeddi a rhannu maddeuant a gras, bywyd newydd, tangnefedd, llawenydd. Nid gwylnos galar mo hon, nid ffarwel terfynol, canys deuant ynghyd eto mewn gwledd fwy, gwledd briodas yr Oen. Yn y cyfamser, dyweddïad sydd yma a gwledd dyweddïad Crist â’i Eglwys. Nid yr un yw’r Swper Olaf a Swper yr Arglwydd, canys dathlwn y wledd hon yr ochr yma i’r Groes a’r Atgyfodiad, yr ochr yma i’r swper hwnnw gyda Chleopas a’i wraig (Luc 28: 28-32). Seiliwyd Swper yr Arglwydd ar ddigwyddiadau wrth y bwrdd ar y ddwy noson hyn. Dechreuodd yr Eglwys ddathlu Swper yr Arglwydd cyn i’r Testament Newydd gael ei ysgrifennu, a’r ddefod wedi parhau yng nghanol ei bywyd hyd heddiw, ac i barhau hyd ddiwedd amser. Dyma sail cymdeithas gweision Crist, dyma symbol o’i rodd o undod i’w Eglwys, dyma’r alwad i wasanaethu’r byd a rhannu’r Newyddion Da. Ond beth yw ystyr ‘cofio’? Nid mynd yn ôl yn sentimental, ond gwybod ac adnabod yn y presennol. Y mae Crist yma! Y mae’r Arglwydd gyda’i bobl.

**Gweddi:**

*Dduw Dad,*
*gwahoddaist ni i gyfranogi o’r swper a roes dy Fab i’w Eglwys.*
*Erfyniwn arnat ein meithrin â’i bresenoldeb,*
*a’n huno yn ei gariad ef;*
*yr un sy’n byw ac yn teyrnasu gyda thi a’r Ysbryd Glân,*
*yn un Duw, yn awr ac yn dragywydd. Amen.*